## Gweithgaredd Dysgu- Cyfnod Allweddol 3

Mae'r adnodd hwn yn darparu gweithgareddau dysgu ar gyfer eich myfyrwyr, gan ddefnyddio Casgliad y Werin Cymru. Mae'n un o gyfres o naw yn ymwneud â Phatagonia ar gyfer CA3.

Sefydlu'r Wladfa Gymreig ym Mhatagonia
Mordaith y 'Mimosa', 1865
Brodorion Patagonia a'r gwladfawyr Cymreig
Dyddiau cynnar ar dir Patagonia
O ddyffryn Camwy i Gwm Hyfryd - Patagonia
Dyddiau du - llifogydd ac allfudo
Ysgolion cynnar y Wladfa
Hanes yr Iaith Gymraeg ym Mhatagonia
**Capeli ac eglwysi'r Wladfa**

# Capeli ac eglwysi'r Wladfa

## Gan Culturenet Cymru

## Cyflwyniad

*'Mae achos crefydd yn enill tir yn mhob ystyr yma.' Y Parchedig D. Lloyd Jones, 1878*

**Tasgau ac amcanion dysgu**

1. Map o Ddyffryn Camwy
2. Ffydd Gristnogol y gwladfawy
3. Crefydd
4. Capel Moriah
5. Eglwysi Patagonia a Chymru

Lawrlwytho'r Casgliad o ddelweddau a thaflenni gwaith ar gyfer y gweithgaredd hwn o Gasgliad y Werin Cymru

## Capeli ac eglwysi'r Wladfa

*'Mae achos crefydd yn enill tir yn mhob ystyr yma.' Y Parchedig D. Lloyd Jones, 1878*

Cyn gynted ag yr oeddynt wedi ymgartrefu yn Nyffryn Camwy ym 1865, dechreuodd y gwladfawyr gynnal gwasanaethau crefyddol ffurfiol yn y stordy pren syml a godwyd yng nghanol pentref Caer Antur. Roedd y Parchedigion Abraham Matthews a Lewis Humphreys (gweinidogion gyda'r Annibynwyr) yn cymryd eu tro i arwain y gwasanaethau bob yn ail fore Sul. Yn ogystal ag oedfa yn y bore, cynhaliwyd ysgol Sul yn y prynhawn a chyfarfod gweddi gyda'r nos. Nid oedd aelodau'r holl enwadau Anghydffurfiol yn ymgynnull gyda'i gilydd ar gyfer yr oedfaon hyn: arferai'r Parchedig Robert Meirion Williams gynnal gwasanaethau ar gyfer y Bedyddwyr yn ei gartref. Ond, oherwydd afiechyd, bu'n rhaid i Williams adael y Wladfa yn fuan wedyn, a daeth y drefn hon i ben.

Erbyn 1873, roedd capel wedi ei adeiladu yn Rawson ac, yn y 1880au, adeiladwyd ail addoldy (capel 'Berwyn') gerllaw. Er y bu'n rhai i'r capel hwn gau am gyfnod, mae bellach wedi ailagor ac fe gynhelir gwasanaethau yno hyd heddow. Erbyn diwedd y 1870au, roedd enwadaeth wedi dychwelyd i'r Wladfa a'r Bedyddwyr wedi mynd ati i adeiladu capel newydd yn ardal Treorci, ar dir a oedd yn eiddo i'r Parchedig William Casnodyn Rhys ym 1878. Dinistriwyd y capel pan orchuddiwyd Dyffryn Camwy gan lifogydd ym 1899, a bu'n rhaid agor capel Bedyddwyr arall (Bethlehem) yn yr ardal. Fodd bynnag, oherwydd cyflwr truenus yr adeilad hwn, bu'n rhaid codi capel arall i gymryd ei le ym 1907.

Y trydydd capel i gael ei godi yn y Wladfa oedd Moriah, ger Trelew. Cafodd ei adeiladu ym 1880 dan anogaeth y gweinidog, y Parchedig Abraham Matthews. Ym mynwent y capel hwn y claddwyd nifer o'r gwladfawyr cyntaf, ac yno hefyd y codwyd Cofgolofn Abraham Matthews. Pan adeiladwyd y capel, roedd mwyafrif yr addolwyr yn byw ar ffermydd cyfagos, ond wrth i nifer gynyddol ohonynt symud i fyw i dref Trelew, penderfynwyd codi capel newydd yn y dref honno. Adeiladwyd Tabernacl, Trelew, ym 1889, a hwnnw yw adeilad hynaf y dref.




*Cerdyn post o'r capel, Gaiman, Chubut, a anfonwyd at Mrs Anne Jones, 1909*

# Capeli ac eglwysi'r Wladfa

Adeiladwyd capel cyntaf ardal y Gaiman ('Capel Cerrig') yng nghanol y 1870au, wedi i'r gwladfawyr ymsefydlu yn yr ardal. Adeiladwyd ail gapel ym 1884 ond erbyn 1912 roedd hwn yn hefyd yn cael ei ystyried yn rhy fach a chodwyd trydydd capel gerllaw. Yn ardal Bryn Gwyn, codwyd capel bychan ym 1883 (Seion) ond wedi iddo gael ei ddinistrio gan storm bu'n rhaid adeiladu capel newydd ar yr un safle.

Yn ogystal â'r uchod, codwyd nifer o gapeli eraill ar hyd Dyffryn Camwy i ddiwallu anghenion ysbrydol y cymunedau gwasgaredig. Yn eu plith, roedd Nazareth, Drofa Dulog; Capel Bryn Crwn; Capel Glan Alaw; Carmel, Dolafon; Bethel, Tir Halen; a Salem, Lle Cul, sef unig gapel sinc y Wladfa.



*Llyfr ffoto Edward Jones Williams, c. 1910*

Dylid cofio nad Anghydffurfwyr oedd pob un o'r Cymry a ymfudodd i'r Wladfa, a bod carfan fechan o Eglwyswyr yn eu plith. Roedd Edwin C. Roberts, un o arweinwyr cynnar y Wladfa, yn perthyn i'r garfan honno, ac ymdrechodd yn galed i sicrhau offeiriad ac adeilad pwrpasol ar gyfer ei gyd-Eglwyswyr. Llwyddodd i berswadio Jonathan Ceredig Davies i ymfudo i'r Wladfa i'w gynorthwyo ym 1875, a bu yntau yn cynnal gwasanaethau ac ysgolion Sul yng nghartref Edwin. Erbyn 1883, roedd Eglwyswyr y Wladfa wedi sicrhau gwasanaeth eu hoffeiriad cyntaf, sef y Parchedig Hugh Davies (Huw Ddu o Arfon). Roedd gwasanaethau yn parhau i gael eu cynnal yn Bryn Antur, cartref Edwin, hyd 1891, pan adeiladwyd Eglwys Llanddewi yn ardal Bethesda, ger Dolafon. Yn ddiweddarach, penodwyd y Parchedig D. G. Davies yn gaplan eglwys newydd Trelew, sef Eglwys Sant Marc.

Ffynonellau

R. Bryn Williams, Y Wladfa (Caerdydd, 1962)

R. Owen Jones, Yr Efengyl yn y Wladfa (Pen-y-bont ar Ogwr, 1987)

# Capeli ac eglwysi'r Wladfa

## Tasg 1. Map o Ddyffryn Camwy

Gosodwch y capeli a'r eglwysi ar fap o Ddyffryn Camwy gan nodi y dyddiadau agorwyd hwy.

*Cwblhewch y daflen waith – Capeli ac Eglwysi*

## Tasg 2. Ffydd Gristnogol y gwladfawy

Trafodwch sut byddai'r llifogydd o bosib wedi effeithio ar ffydd Gristnogol y gwladfawyr.

## Tasg 3. Crefydd

Chwiliwch am dystiolaeth sy'n profi mor bwysig oedd crefydd i'r gwladfawyr cynnar.

## Tasg 4. Capel Moriah



[Capel Moriah, 2005]

Pryd adeiladwyd Capel Moriah a phwy oedd gweinidog y capel?


## Tasg 5. Eglwysi Patagonia a Chymru

Ym mha ffordd y mae capeli ac eglwysi Patagonia yn wahanol i'r rhai yng Nghymru?

*Cwblhewch y daflen waith - Nodweddion Pensaernïol Capeli ym Mhatagonia a Chymru*

# Capeli ac Eglwysi

Gosodwch y capeli a'r eglwysi ar fap o Ddyffryn Camwy gan nodi pryd agorwyd hwy




Hawlfraint: Culturenet Cymru - gellir ei gopïo am ddim at ddiben ysgolion
http://www.glaniad.com/addysg

# Nodweddion Pensaernïol Capeli ym Mhatagonia a Chymru



Capel Moriah

Llun o gapel yng Nghymru

Nodweddion

Nodweddion

Hawlfraint: Culturenet Cymru - gellir ei gopïo am ddim at ddiben ysgolion
http://www.glaniad.com/addysg